"Finally, the Court reiterates that in the assessment of the present case it should be borne in mind that the Convention is intended to guarantee not rights that are theoretical or illusory but rights that are practical and effective. Whilst Art.8 contains no explicit procedural requirements, it is important for the effective enjoyment of the rights guaranteed by this provision that the relevant decision-making process is fair and such as to afford due respect to the interests safeguarded by it. What has to be determined is whether, having regard to the particular circumstances of the case and notably the nature of the decisions to be taken, an individual has been involved in the decision-making process, seen as a whole, to a degree sufficient to provide her or him with the requisite protection of their interests."
2. The current guidance appears to hide behind a clause that it does not have to consider all of the particular circumstances or the needs, wishes and feelings of the disabled learner let alone a proper consideration of the particular circumstances that they find themselves in. An assessment is rarely if ever commissioned in practice after a persons 16th birthday let alone as assessment that advocates usage of expertise from people with specialist knowledge in the field.

Conclusion

The Decision to refuse to make an emergency change to the current guidance in light of the pandemic, when that guidance does little to promote confidence in it being properly Equality Act compliant in the first place is deeply worrying. It offers insight into thinking which appears to disregard the impact that this covid19 pandemic is actually having on this group of some of the most vulnerable people in society.

The current trend appears to advocate, and indeed promote, the fact that the state should not be bound by the wishes and feelings of a family who would often be in the unique position to be best informed as to the needs of a young people and the impact that this is having on a particular disabled person.

The numbers of updated assessments in Wales beyond the 16th birthday merely reiterates this and is deeply worrying never mind the likelihood of future assessments not being delivered to those who are in need this year.

The application of what is said to be an exceptional circumstance test is merely to impose another hurdle for disabled people when the state should be doing all that is possible to eliminate prejudice and promote equality of opportunity. The very fact that only about 0.003% of the population of Wales are in actual need for this level of support should be considered exceptional enough. The fact that so few are granted either a three year period on entry, or an extension of their two year course of study or an additional programme of study is frankly shameful and representative of a Government content to focus on finance rather than need. This should not influence the Minister to reject the request but to promote the request.

I am left with an overwhelming urge to ask- Why do these people burdened by the most exceptional disabilities, still have to prove an exceptional circumstance.? Is not their disability exceptional enough? Why should exceptional people be so shamelessly ignored by the unexceptional ordinary world? Doing that which the general law requires at its most basic which is thus the least that the law expects is hardly a triumph to be proud of. For injustice, social and economic inequality to thrive, good politicians need only do nothing.

Yours sincerely

Michael Charles
SOLICITOR

sinclairslaw

P-05-962 An emergency amendment to extend age of entitlement to additional educational support from 25 to 26 and to define within Government guidance the Covid 19 pandemic as an exceptional circumstance – Petitioner to Committee, Appendix A, 31.05.20

APPENDIX A

It is necessary to consider in careful detail the wording of the policy and guidance documents. From these documents we can develop a political case for change not least due to the fact that the both guidance documents are ambiguous, contradictory and unnecessarily complex such that it is difficult to derive any sense of certainty over what would amount to an exceptional circumstance in a particular case. There are of course multiple paragraphs but I will highlight a few which perhaps exemplify the extent of the barriers in the way of disabled learners in Wales;

- a. *The transition planning and/or annual review process must be undertaken in an impartial, unbiased, person-centred way. These meeting(s) for that young person should therefore only involve those as identified within the SEN Code of Practice. The Welsh Government would not normally expect specialist FE establishments to be actively involved in review meetings as it would be difficult to maintain impartiality when discussing appropriate and available options for that young person*
- b. *The specialist FE establishment should consider the information provided and undertake their own initial assessment of the young person in order to establish the provision they can cater for.*

Surely if the college is unable to make all the provision that a learner may need, it should be involved in the critical transition planning and this would involve at the critical transitional review understanding what the learner can and cannot do, what progress needs to be made in what key areas. If needs are likely to be unmet a discussion should be had as to how they can be addressed through perhaps a more bespoke approach. Surely it is not simply a case of trying to force a square peg into a round hole.

- c. *'17.The Welsh Government consider it good practice for mainstream and specialist FE establishments to engage with each other regarding those young people with complex needs who are seeking post-16 education, to ensure the necessary provision to meet their identified education and training needs can be established and realistically delivered.'*

Yet In practice we have seen that the assessment is done at the outset prior to the young person starting at college which indicates that the longer term needs are considered determined as at the age of 16 and rarely, if ever, updated. The guidance states that The Learning and Skills Assessment is *an assessment that should result in a Learning and Skills Plan (LSP) which identifies the following:*

- *the young person's educational and training needs; and*

· the reasonable and realistic provision and duration required to meet those needs, along with any additional holistic support required, where it is needed;"

Contrast that with England where the courts have stated that the education and health care plans are evolving documents. For example, the DfE guidance on transport states:

"The DfE's statutory guidance ('Post-16 transport to education and training (October [2017](#))) sets out: (1) the LA should consider the impact of a learning difficulty or disability on the young person's ability to walk the distance [18], (2) the LA should take account of its duty to encourage, enable and assist the participation of young people with learning difficulties and disabilities up to the age of 25 in education and training pursuant to Education and Skills Act [2008](#) s68 [22], (3) it is good practice to account for the fact a learner with a learning difficulty or disability may take longer to complete a particular programme and should consider extending travel arrangements for that period [23]."

It is misguided to believe that outcomes set for a child at the age of 16 should be carried through without regard to changing needs which may be exposed later. Some children learn at different rates and achieve things later in life that were never previously thought possible. To set the goal at 16 without considering the need to review them again is deeply unfair. The critical role, long recognised in the world of special needs, is that of the Educational Psychologist. The psychologist gives advice to schools and colleges in regard to approaches to adopt, the progress made, outcomes achievable and over what period. Yet the guidance states that the involvement of such expertise in the case of those with special needs should be limited...

- d. *[25.](#)In exceptional circumstances, the Welsh Government may specifically arrange for an educational psychologist (EP) to undertake the section 140 assessment of a young person."*

Contrast this with regulation 6 of the English Special Needs Regulations that requires in all cases of assessment up to the age of 25 the involvement of an educational psychologist.

When it comes to determining duration of study the guidance states that those with complex needs have an additional hurdle when seeking support beyond two years of post 16 schooling. They must establish the extent of their disability determined at a frozen point in time without regard to the fact that needs may evolve. They also have the higher hurdle of establishing an exceptional circumstance

(e) Where specialist provision is being sought, this should include consideration of the duration required based on the young person's capability to progress and achieve against a proposed programme of study. For the majority of young people accessing specialist provision, the duration will be comparable with the duration of provision available within mainstream FE establishments. However, the Welsh Government will consider applications for a longer duration than two years on an exceptional basis"

Further at para 92 of the policy document it states:

In certain circumstances it may be necessary for a young person to undertake additional specialist provision over and above, and following completion of, the young person's original agreed programme of study. It is not the Welsh Government's policy to routinely fund continuous education and training up until the age of 25. The Welsh Government will not, therefore, usually fund a second/additional programme of study at any specialist FE establishment unless the previous funded programme of study cannot fairly be said to have afforded the young person effective access to further education, or unless very exceptional circumstances have resulted in the young person being objectively deprived of the educational value of the previous funded programme

Why should the most disadvantaged be treated so unfavourably? Why must they be expected to jump an even higher hurdle than merely demonstrating the difficulties they have encountered and continue to encounter throughout their lives?

- f. *.Where a programme of study lasting more than two academic years is proposed exceptional reasons relating to the individual's capability to learn will need to be demonstrated. Even in these cases, funding is unlikely to be offered for more than two years in the absence of objective evidence demonstrating that the provision identified as necessary to meet the young person's established needs cannot realistically be provided by a study programme of two years"*

This paragraph makes clear that even those who may need the help should not expect it, unless there is "objective evidence". What does that mean? Firstly it gives the impression that college evidence is not impartial, and then goes on to say that educational psychology evidence is only for exceptional cases. So how on earth can a person of moderate means secure any evidence that is objective especially when they are unlikely to secure an up to date learning assessment under section 140. The Act leaves this as a discretionary rather than an obligatory matter. In practice, this means there is no realistic way of achieving it other than by mere good fortune.

If that is not confusing enough let's see the next paragraph:

- g. *"[32.It](#) is the Welsh Government's expectation that 'objective evidence', as referred to in the paragraph above, would be (but not limited to) evidence of how the programme of study would generally be delivered over a two year duration. It is also our expectation that 'exceptional reasons', in this case, would normally relate to (but not limited to) why that young person (for whom the placement relates to) could not undertake that provision within the normal timescales for delivery. The Welsh Government will not normally accept an exceptional reason to justify a duration where the programme is described /considered to be a three year 'standard' offer."*

In other words, unlike a person without a disability who seeks to secure a level of skill in their life that requires them to enrol on a three year programme, the person with complex needs

must generally live with a two year period. Skill development opportunities are thereby cruelly limited by the state.

What if a person with complex needs identifies a new programme because of discovering new talents that they never knew they had? What if they, perhaps, change direction academically to that which they followed when they left school?

The guidance states

- h. *"33.Specialist FE establishments must identify a clear and reasonable programme of study that meets the young person's identified education and training needs, linked to their future aspirations, as part of the section 140 assessment process.."*

Yet this is a college that the Welsh Government promote as potentially lacking objectivity at this stage such that they should not be involved in the critical transition review for the child at 16. How do they derive any clear understanding of the future training aspirations of a young person who they are restricted to getting to know at the annual review? This seems irrational to me.

Some people who enrol at specialist colleges do so with the objective that they may be able to identify the capacity to learn new things or break down some of the barriers that have restricted their desired progress in the past. For those with complex difficulties that might take time. For example, a person with a mental health difficulty, such as acute anxiety, might take a year or longer to resolve the symptoms so as to identify new ideas or new programmes based on academic potential never previously identified as possible. Yet the Guidance expects colleges to identify changes in a programme of study within only the first term of the academic year.

The guidance states

- i. *[64.It](#) is the Welsh Government's expectation that where changes to a young person's provision significantly impacts on the agreed programme of study, e.g. change of programme or course of study, this should be identified as early as possible within their academic year. Therefore, all requests to make a 'significant' change to an agreed provision will need to be submitted within the young person's first term of study in any academic year. The Welsh Government will not normally accept any requests to significantly change a provision if it is received after this time in any academic year. The Welsh Government will however consider minor changes to support provision where it is considered necessary throughout the academic year."*

In the guidance document "securing provision for young people with learning disabilities" no [196/2017](#)

At para 2 it states:

- j. *"The Welsh Government believes, in regards to post-16 education, that all young people who have a learning difficulty (see 'Statutory context' section on page 5 for a definition) should be provided equitable access to further education at a mainstream FE establishment, through the delivery of inclusive options available locally to meet their needs"*

Unlike the case in England where the council is obliged to take into account a placement of the parent or young person's choice (section 39 Children and Families Act [2014](#)) no such right exists in Wales.

The guidance states:

- k. *"22. While the Welsh Government will take account of the wishes of the young person, their families and/or carers, it does not have a legal duty to fund the specialist provision of their choice; nor does it have a legal duty to fund their programme duration of choice."*

How to start the process.

- l. *"24. In order to determine whether to fund a placement, the Welsh Government first needs to understand the young person's educational and training needs and the provision required to meet them. The Welsh Government will generally commission an assessment to be undertaken, and have arranged for Careers Wales to conduct these assessments on their behalf. This usually forms part of the transition process during the last year of compulsory schooling for the young person. In making decisions about securing and funding a placement, the Welsh Government will take the report (LSP) of the assessment into account, together with all other relevant matters, including any information or evidence collated by Careers Wales throughout the assessment process"*
- m. *"27. For young people who are in school, section 140 assessments are carried out on behalf of the Welsh Government by Careers Wales during the last year of compulsory schooling for the young person. Careers Wales will automatically provide an assessment where the young person has a statement of SEN and where a young person is supported by School Action or School Action Plus and has been subject to an annual and/or transition review process consistent¹¹ with that undertaken for those with a statement of SEN."*
- n. *31. Where arrangements for an assessment have been made, that assessment should be completed as quickly as is reasonably possible in order to assist the young person to consider their options for further learning and to ensure appropriate arrangements can be arranged. It is expected that section 140 assessments will be completed by the end of the spring academic term for those young people expecting to commence post-16 education and training at the start of the next academic year, i.e. the following September. "*

Disabled people are not really given any priority to establish life skills beyond the school day in Wales. This is because of the operation of the guidance which states:

(o) "50. The Welsh Government will fund a placement for a young person at a specialist FE establishment on a day basis where they are satisfied that such provision is necessary to enable the individual to participate in education and training. Specialist provision will usually be necessary, in the Welsh Government's view, only where there is no other realistic means of providing the young person with effective access to the provision established as necessary to meet the individual's identified education and training needs.

(p) 51. The Welsh Government will only fund boarding accommodation if without it the young person would be denied effective access to the specialist provision established as necessary to meet the individual's identified educational and training needs."

It is noteworthy that boarding is only considered necessary to enable a person to "access specialist provision" rather than because boarding itself may be considered as constituting specialist educational provision itself. Contrast this with the legal approach seen in various cases. A waking day curriculum (which in practice is likely to lead to a requirement for a residential school placement) may be justified if the pupil needs to "translate into his home and social and indeed all areas of his life and functioning, the skill which he learns within the school and school room": *S v Solihull MBC* [\[2007\] EWHC 1139](#).

To conclude, only politicians can direct the amendment of these guidance documents and thereby influence the decision makers. Only politicians can extend the law to give those with disabilities another chance this year. They have enough hurdles to overcome and I respectfully suggest that now is the time to start removing them. I urge you not to forget what is identified within the freedom of information material provided in 2018.

P-05-962 An emergency amendment to extend age of entitlement to additional educational support from 25 to 26 and to define within Government guidance the Covid 19 pandemic as an exceptional circumstance – Petitioner to Committee, Appendix B, 31.05.20

APPENDIX B

J has highly complex needs. He lives in London and is aged 21. He has already received 5 years post 16 provision. He still receives highly specialist support because a tribunal determined so. J has been given another year. It is fortunate that J lives in England.

D has complex difficulties and has been at a Specialist College in Southern England. D has achieved his aspirations and is now doing things that he never thought possible at school. He excels in music and his life skills have developed such that he is no longer dependent on the state to support him. He can work and thereby gain employment. D has been at the college for three years. He is given a fourth. D lives in England.

S has been in post 16 specialist college for the past 4 years. She is now finishing her first mainstream year. Her mother states “without this specialist none of this would have been possible”. S lives in England.

T aspires to work in performing arts. It was the professional opinion of the team of experts contributing to his annual review that he needs access to highly specialist and bespoke provision. He is able to get direct therapy which was not available at school. T is thriving. T lives in England.

B lives in Wales. He had been in specialist college for a duration of time permitted by the Welsh Government. B applied to extend his time at the college. B was refused.

P-05-947 Dylai llythyrau meddygon teulu fod am ddim i fyfyrwyr
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan William Bremner, ar ôl casglu cyfanswm o 144 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Ar hyn o bryd, os bydd angen llythyr meddyg teulu ar fyfyrwr i gefnogi hawliad amgylchiadau esgusodol neu am dystiolaeth ar gyfer cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA), bydd y meddyg teulu yn codi tua £35 ar y myfyrwr (gan ddibynnu ar y feddygfa). Oherwydd hyn, ar ben yr anawsterau posibl i fyfyrwyr o ran eu hiechyd, o ran anableddau dysgu, a/neu o ran anableddau, mae'n rhaid iddynt dalu i gael dogfen sy'n dangos hynny. I lawer o fyfyrwyr (yn enwedig y rhai o gefndiroedd tlotach), golyga hyn eu bod yn cael trafferth i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i allu cwblhau eu cwrs gradd, ac mewn rhai achosion i gael dau ben y llinyn ynghyd.

Etholaeth a Rhanbarth y Senedd

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

Dylai llythyrau meddygon teulu fod am ddim i fyfyrwyr

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Mehefin 2020
Petitions Committee | 9 June 2020

Cyfeirnod: RS20/11947-2

Rhif y ddeiseb: P-05-947

Teitl y ddeiseb: Dylai llythyrau meddygon teulu fod am ddim i fyfyrwyr

Testun y ddeiseb:

Ar hyn o bryd, os bydd angen llythyr meddyg teulu ar fyfyrwr i gefnogi hawliad amgylchiadau esgusodol neu am dystiolaeth ar gyfer cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA), bydd y meddyg teulu yn codi tua £35 ar y myfyriwr (gan ddibynnu ar y feddygfa). Oherwydd hyn, ar ben yr anawsterau posibl i fyfyrwyr o ran eu hiechyd, o ran anabledau dysgu, a/neu o ran anabledau, mae'n rhaid iddynt dalu i gael dogfen sy'n dangos hynny. I lawer o fyfyrwyr (yn enwedig y rhai o gefndiroedd tlotach), golyga hyn eu bod yn cael trafferth i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i allu cwblhau eu cwrs gradd, ac mewn rhai achosion i gael dau ben y llinyn ynghyd.



1. Cefndir

Mae gwefan Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) yn darparu [canllawiau](#) i feddygon eu rhannu â'u cleifion sy'n esbonio pam eu bod yn codi ffi am ambell beth.

Nid yw'r GIG yn talu am yr holl waith y gofynnir i feddygon ei wneud, ac mae llawer o feddygon teulu yn hunangyflogedig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt dalu am eu hamser a'u costau - staff, adeiladau, gwres, goleuadau, ac ati - yn yr un modd ag unrhyw fusnes bach. **Dim ond am waith y GIG y mae'r GIG yn talu, rhaid i unrhyw waith y tu allan i'r GIG gael ei ariannu trwy ddulliau eraill a dyma pam y codir ffioedd.**

Pan fydd meddyg yn llofnodi tystysgrif neu'n cwblhau adroddiad, os am aros ar y Gofrestr Feddygol, mae'n amod nad ydynt ond yn llofnodi'r hyn y maent yn gwybod sy'n wir.

Pan ofynnir i feddyg roi gwybodaeth feddygol am glaf ar ffurf adroddiad, llythyr neu dystysgrif, gall y broses ddilynol fod yn hir ac nid yw bob amser yn syml i'w chwblhau.

Er mwyn llenwi hyd yn oed y ffurflenni symlaf, efallai y bydd yn rhaid iddynt wirio holl gofnod meddygol claf (efallai na fydd rhai o'r cofnodion yn hygyrch ar gyfrifiadur neu ar y safle). Gall diofalwch neu adroddiad anghywir arwain at ganlyniadau difrifol i'r meddyg gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (corff rheoleiddio'r meddyg) neu hyd yn oed yr Heddlu.

Er nad oes unrhyw ffioedd penodol, mae gwefan Cymdeithas Feddygol Prydain yn darparu [canllawiau](#) i ymarferwyr meddygol ynghylch ffioedd cyffredin, gan gynnwys **pa ffi i'w chodi a phryd.**

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ar 16 Mawrth 2020 fod y ddogfen [Cymru Iachach](#) yn gosod cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus, gyda'r person iawn yn darparu'r gofal iawn ar yr adeg iawn. Mewn sawl achos, nid meddyg teulu fydd y person gorau i ddarparu cymorth i fyfyrwr - efallai y bydd swyddogion cymorth cwnsela neu gwngselwyr yn gallu cefnogi myfyrwyr yn well wrth wneud achos am amgylchiadau esgusodol.

Aiff y Gweinidog ymlaen i ddweud bod meddygon teulu yn darparu gwasanaethau'r GIG yn rhad ac am ddim i gleifion o fewn cwmpas **contract gwasanaethau meddygol cyffredinol**. Fodd bynnag, fel contractwyr annibynnol gallant ddewis, mewn rhai amgylchiadau, godi ffi am lenwi ffurflenni neu adroddiadau ar gyfer trydydd partïon nad ydynt yn gysylltiedig â darparu gofal iechyd y GIG.

O ran y ffioedd a awgrymwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain (fel y soniwyd uchod), dywed y Gweinidog fod y rhain wedi'u bwriadu fel canllaw yn unig ac nad ydynt yn argymhellion, ac nid oes rheidrwydd ar feddyg i godi'r gyfradd y mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn eu hawgrymu. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n atal ymarfer gwrth-gystadleuol. Mae hyn yn golygu y bydd y penderfyniad a'r ffi i'w chodi am wasanaethau o'r fath yn amrywio o feddygfa i feddygfa, ac weithiau ni fydd ffi yn cael ei chodi o gwbl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/00497/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich e-bost 11 Chwefror ynghylch Deiseb P-05-947 mewn perthynas â chodi tâl am lythyrau ymarferwyr cyffredinol.

Mae Cymru iachach yn nodi ein cynllun ar gyfer gwasanaethau iechyd yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus, gyda'r person cywir yn darparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir. Mewn llawer o achosion nid Ymarferwyr Cyffredinol fydd y person gorau i roi cymorth i fyfyrwr - gallai swyddogion cymorth neu gynghorwyr fod mewn sefyllfa well i gefnogi myfyrwr wrth gyflwyno achos dros amgylchiadau arbennig.

Mae Ymarferwyr Cyffredinol yn rhoi gwasanaethau'r GIG yn ddi-dâl o fewn ffiniau'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Er hynny, fel contractwyr annibynnol cânt ddewis, o dan rai amgylchiadau, godi tâl am lenwi ffurflenni neu adroddiadau ar ran trydydd partion nad ydynt mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd y GIG.

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) yn awgrymu ffioedd y gall Ymarferwyr Cyffredinol eu codi ar eu cleifion am waith nad yw'n waith y GIG (hy gwaith nad yw'n dod o dan eu contract â'r GIG) er mwyn helpu Ymarferwyr Cyffredinol i bennu eu ffioedd proffesiynol eu hunain. Er hynny, fel canllaw yn unig y bwriedir y ffioedd a awgrymir gan y BMA. Nid ydynt yn argymhellion ac nid oes rhwymedigaeth ar feddyg i godi'r cyfraddau y mae BMA yn eu hawgrymu. Bwriad hyn yw cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n atal arferion gwrth-gystadleuol. Mae hyn yn golygu y bydd y penderfyniad a'r swm i'w godi am wasanaethau o'r fath yn amrywio o bractis i bractis ac weithiau ni chodir tâl o gwbl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

P-05-950 Dysgu Amaethyddiaeth ac Addysg Cefn Gwlad o oed 4 i 16 yn ein Hysgolion

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Osian Hedd Harries, ar ôl casglu cyfanswm o 93 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddysgu am Amaethyddiaeth ac Astudiaethau Gefn Gwlad yn ein hysgolion.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae'n bwysig i bobl ifanc ddysgu sut mae'r broses o greu bwyd yn gweithio, gan ddysgu'r berthynas rhwng Bwyd ac Amaeth. Mae'n bwysig hefyd fod nhw'n dysgu'r sgiliau sylfaenol o sut i allu cynhyrchu cynnyrch ein bwydydd. Fydd hyn hefyd yn magu parch a dealltwriaeth o waith yr Amaethwyr.

Etholaeth a Rhanbarth y Senedd

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin De Cymru

Dysgu Amaethyddiaeth ac Addysg Cefn Gwlad

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Mehefin 2020

Petitions Committee | 9 June 2020

Papur Briffio:

Rhif y ddeiseb: P-05-950

Teitl y ddeiseb: Dysgu Amaethyddiaeth ac Addysg Cefn Gwlad o oed 4 i 16 yn ein Hysgolion

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddysgu am Amaethyddiaeth ac Astudiaethau Gefn Gwlad yn ein hysgolion.

Mae'n bwysig i bobl ifanc ddysgu sut mae'r broses o greu bwyd yn gweithio, gan ddysgu'r berthynas rhwng Bwyd ac Amaeth. Mae'n bwysig hefyd fod nhw'n dysgu'r sgiliau sylfaenol o sut i allu cynhyrchu cynnyrch ein bwydydd. Fydd hyn hefyd yn magu parch a dealltwriaeth o waith yr Amaethwyr.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, yn nodi bod y **cwricwlwm presennol** yn rhoi hyblygrwydd o fewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer addysgu a dysgu am bynciau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, yr amgylchedd a bwyd. At hynny, gall dysgwyr ymgymryd â thasgau coginio a deall deiet iach ym maes Dylunio a Thechnoleg.

Y cwricwlwm newydd i Gymru

Yn dilyn [ymarfer adborth](#) ar [fersiwn ddrafft o'r cwricwlwm newydd](#), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cwricwlwm terfynol i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Mae'r ddogfennaeth ar y cwricwlwm newydd ar gael naill ai fel [cyfres o dudalennau gwe](#) neu fel [PDF sengl](#).

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod y Cwricwlwm newydd i Gymru **wedi'i seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer y cwricwlwm newydd:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd y Cwricwlwm 3–16 oed newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir yn gyhoeddus o fis **Medi 2022 yn raddol**.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn nodi bod y Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles, y Dyniaethau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnwys dysgu ac arweiniad sy'n cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o fwyd, a'r broses o'i gynhyrchu. Bydd gan ysgolion hyblygrwydd i benderfynu sut y gall eu cwricwlwm adlewyrchu eu hardal, eu cymuned a'r materion sy'n berthnasol i'w dysgwyr.

Mae'r canllawiau ar gyfer **Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles** yn nodi:

Gellid gwella dealltwriaeth o ddeiet a maeth drwy ddysgu am y cyflenwad bwyd, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, a sut mae hyn wedi newid dros amser.

Mae'r canllawiau ar gyfer **Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau** (sy'n cynnwys daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol) yn nodi y dylai cwricwlwm yr ysgol, ar gyfer daearyddiaeth:

[fod yn] cynnig cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio materion cynaladwyedd, newid hinsawdd, dewisiadau egni, natur, peryglon a thrychinebau naturiol a risgiau peryglon, llygredd, prinder adnoddau naturiol, diogelwch bwyd, poblogaeth, hunaniaeth, ethnigrwydd, mudo, aneddiadau, globaleiddio, prynwriaeth a masnach, cynlluniau i drechu tlodi, anghyfartaledd ac annhegwch, gwahaniaethau rhwng gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad.

Adroddiad Adolygiad o Ddysgu

Yn 2014, [comisiynodd Llywodraeth Cymru](#) Yr Athro Wynne Jones OBE – cyn Brifathro a Phrif Weithredwr Coleg Prifysgol Harper Adams – i gynnal adolygiad annibynnol. Mae adroddiad terfynol yr Athro Jones, [Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Ddysgu Colegau Addysg Bellach a Pherthnasedd y Ddarpariaeth Honno o ran Cefnogi Busnesau Fferm yng Nghymru](#) (Ionawr 2015) yn argymhell y dylid sefydlu grŵp i ddatblygu Strategaeth Addysg a Datblygiad Amaethyddol ar gyfer Cymru. Argymhellodd at hynny:

bod grŵp y strategaeth yn cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol i sefydlu momentwm o fewn y cwricwlwm ysgolion ar gyfer mabwysiadu TGAU mewn Gwyddor Amaethyddol yn fwy eang. Ar ben hynny, argymhellir y dylid rhoi'r cyfle i athrawon yng Nghymru gofleidio enghreifftiau o feysydd amaethyddiaeth, bwyd ac adnoddau naturiol yn fwy eang yng nghwricwlwm eu hysgolion. Dylai proffil datblygiad staff mewn addysg amaethyddol gael ei adolygu yn y sector ysgolion a'r sector AB.

Cafodd hyn [ei dderbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru](#) a ddywedodd:

Mae angen i Cymwysterau Cymru fynd ati i ddatblygu TGAU newydd. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r holl arlwy TGAU gwyddoniaeth yn 2016. Bydd hyn yn sicrhau bod arlwy TGAU gwyddoniaeth sy'n berthnasol ac yn gydlynol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Dylai grŵp y strategaeth fod yn rhan o'r gweithgarwch hwn i ganfod yr angen am TGAU Gwyddor Amaethyddol.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal [ymgyngoriad cychwynnol](#) ynghylch y cymwysterau y bydd eu hangen ochr yn ochr â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd yn canolbwyntio ar faterion lefel uchel, er enghraifft a ddylid cadw'r brand TGAU ac a oedd angen cymwysterau yn 16 oed o hyd. Mae Cymwysterau Cymru yn ymgymryd â gwaith datblygu pellach a bydd yn cynnal ymgyngoriadau ychwanegol yn y dyfodol ar egwyddorion dylunio manylach ar gyfer cymwysterau.

Llywodraeth y DU

Ar [7 Chwefror 2018](#), roedd dadl yn [Neuadd San Steffan](#) dan arweiniad Jim Sturdy AS wedi galw am gael TGAU mewn amaethyddiaeth yng Nghymru a Lloegr. Dadleuodd y byddai cwrs o'r fath yn helpu disgyblion TGAU feddu ar gymwysterau ar gyfer gyrfa mewn amaethyddiaeth, a chefnogi'r sector ffermio trwy ddarparu cronfa well a mwy o faint o weithwyr ifanc, addysgedig a medrus. Wrth ymateb, dywedodd Anne Milton, y Gweinidog Prentisiaethau a Sgiliau, fod nifer o bynciau a addysgir yng nghyfnod allweddol 4 ac yn gynharach yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth greiddiol am gynhyrchu bwyd a'r amgylchedd.

At hynny, dywedodd y byddai cymhwyster 'lefel T' mewn amaethyddiaeth, yr amgylchedd a gofal anifeiliaid yn cael ei gyflwyno yn 2022. Yn Lloegr, mae Lefelau T yn gyrsiau newydd a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2020. Mae nhw'n dilyn ymlaen o TGAU a byddant yn cyfateb i 3 Safon Uwch. Mae'r cyrsiau, sy'n 2 flynedd o hyd, wedi'u datblygu ar y cyd â chyflogwyr a busnesau er mwyn i'r cynnwys ddiwallu anghenion diwydiant a pharatoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith.

Methodd y Cynnig yn ystod y Dadl, a gohiriwyd yr eisteddiad heb i'r Cwestiwn gael ei ofyn.

Gogledd Iwerddon

Cyflwynodd Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon TGAU [mewn Amaethyddiaeth](#) yn 2013. Mae'r cymhwyster wedi'i ddiwygio i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019 ymlaen, ac mae'n cynnwys unedau ar Briddoedd, Cnydau a Chynefinoedd; Anifeiliaid ar y Tir; a Materion Cyfoes o ran Amaethyddiaeth a Defnydd Tir.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-05-950
Ein cyf/Our ref: KW/00467/20
Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

18 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

Deiseb P-05-950 – Addysg Amaethyddol a Chefn Gwlad ar gyfer plant 4 i 16 yn ein hysgolion

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ynghylch deiseb a ddaeth gerbron eich Pwyllgor, yn cefnogi'r ddarpariaeth i addysgu am amaethyddiaeth a materion yn ymwneud â chefn gwlad o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Rwy'n sylwi, o'r wybodaeth ychwanegol, fod pwyslais cryf yma ar godi ymwybyddiaeth o'r dulliau o gynhyrchu bwyd.

Mae cwricwlwm cenedlaethol presennol yng Nghymru yn darparu'r hyblygrwydd ar gyfer addysgu a dysgu am bynciau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, yr amgylchedd a bwyd o fewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, darpariaeth i alluogi dysgwyr i archwilio ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd cynhyrchu bwyd, yn ogystal â'u cynorthwyo i ddatblygu sgiliau coginio ymarferol. Yn ogystal, drwy Ddylunio a Thechnoleg, mae dysgwyr yn gallu defnyddio ystod eang o sgiliau a thechnegau i gyflawni tasgau coginio ymarferol ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â diet iachus a chytbwys.

Caiff y cyfleoedd hyn eu hehangu yn ein cwricwlwm newydd i Gymru, y cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar ei gyfer ym mis Ionawr yn barod ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf o dan y fframwaith newydd hwn o fis Medi 2022.

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw bod dysgwyr yn symud ymlaen fel unigolion iach a hyderus. Un o nodweddion y diben hwnnw yw dysgwyr sy'n gallu defnyddio gwybodaeth am effaith bwyd a diet ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 76


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd galluogi dysgwyr i ymgorffori'r pedwar diben yn hollol ganolog i gwricwlwm pob ysgol. Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad ac mae'r rhai sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles, y Dyniaethau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnwys dysgu ac arweiniad sy'n cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o fwyd a'r broses o'i gynhyrchu. Mae'r cwricwlwm newydd yn caniatáu i ymarferwyr ddatblygu dull mwy integredig, gan ddod â gwahanol ddisgyblaethau a meysydd ynghyd i ystyried materion fel cynhyrchu bwyd, yn fwy holistaidd.

Mae hefyd yn bwysig ychwanegu y bydd gan ysgolion yr hyblygrwydd i benderfynu sut y gall eu cwricwlwm adlewyrchu eu cymdogaeth, eu cymuned a'r materion sy'n berthnasol i'w dysgwyr. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o ffocws ar amaethyddiaeth ac astudiaethau cefn gwlad, mewn rhai achosion. Mae canllawiau'r cwricwlwm newydd yn rhoi cymorth i ysgolion i dynnu ar ystod o ffactorau a chyd-destunau lleol wrth ddatblygu eu cwricwlwm, gan eu cefnogi i ddatblygu dysgu sy'n fwyaf perthnasol i'w dysgwyr.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg

Eitem 3.3

P-05-951 Gosodwch derfyn cyfreithiol ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dinah Mulholland, ar ôl casglu cyfanswm o 229 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 wedi gosod y gofyniad i fridiwr â 3 gast fridio neu fwy gael trwydded fel sefydliad bridio. Fodd bynnag, ni osodwyd terfyn uchaf ar nifer y geist bridio y gellir eu cadw mewn sefydliad bridio cŵn trwyddedig.

Felly, mae sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru sy'n bridio cŵn ar raddfa ddiwydiannol, gyda rhai sefydliadau'n drwyddedig i gael 90 neu 100 o eist bridio ar un safle. Hyd yn oed os caiff amodau trwyddedu eu bodloni yn y sefydliadau bridio torfol hyn, mae bridio cŵn ar raddfa mor ddiwydiannol yn arfer hynod amheus ac mae angen ei adolygu. Felly, mae'r ddeiseb hon yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ddiffinio terfyn uchaf ar nifer y geist bridio mewn cynelau bridio trwyddedig. Dylai'r ymgynghoriad hwn gynnwys adolygiad a yw cyhoedd Cymru a sefydliadau Cymru o'r farn bod bridio cŵn torfol yn dderbyniol. Mae angen i'r ymgynghoriad hefyd ystyried a yw'r awdurdodau trwyddedu lleol yng Nghymru wedi cyflawni eu gofyniad i archwilio a dirymu trwyddedau bridio cŵn lle y bo angen. Os ydym yn caniatáu bridio cŵn torfol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn gorfodi amodau trwyddedu ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau fel y'u gosodwyd yn Rheoliadau 2014.

Etholaeth a Rhanbarth y Senedd

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-05-951: Gosodwch derfyn cyfreithiol ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Mehefin 2020
Petitions Committee | 9 June 2020

Cyfeirnod: RS20/12390-1

Rhif y ddeiseb: P-05-951

Teitl y ddeiseb: Gosodwch derfyn cyfreithiol ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 wedi gosod y gofyniad i fridiwr â 3 gast fridio neu fwy gael trwydded fel sefydliad bridio. Fodd bynnag, ni osodwyd terfyn uchaf ar nifer y geist bridio y gellir eu cadw mewn sefydliad bridio cŵn trwyddedig. Felly, mae sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru sy'n bridio cŵn ar raddfa ddiwydiannol, gyda rhai sefydliadau'n drwyddedig i gael 90 neu 100 o eist bridio ar un safle. Hyd yn oed os caiff amodau trwyddedu eu bodloni yn y sefydliadau bridio torfol hyn, mae bridio cŵn ar raddfa mor ddiwydiannol yn arfer hynod amheus ac mae angen ei adolygu. Felly, mae'r ddeiseb hon yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ddiffinio terfyn uchaf ar nifer y geist bridio mewn cynelau bridio trwyddedig. Dylai'r ymgynghoriad hwn gynnwys adolygiad a yw cyhoedd Cymru a sefydliadau Cymru o'r farn bod bridio cŵn torfol yn dderbyniol. Mae angen i'r ymgynghoriad hefyd ystyried a yw'r awdurdodau trwyddedu lleol yng Nghymru wedi cyflawni eu gofyniad i archwilio a dirymu trwyddedau bridio cŵn lle y bo angen. Os ydym yn caniatáu bridio cŵn torfol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn gorfodi amodau trwyddedu ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau fel y'u gosodwyd yn Rheoliadau 2014.



Cefndir

Rheoliadau presennol sefydliadau bridio cŵn

Ar hyn o bryd, rheoleiddir bridio cŵn o dan [Reoliadau Lles Anifeiliaid \(Bridio Cŵn\) \(Cymru\) 2014](#) ('Rheoliadau 2014'). Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod angen trwydded ar fridwyr sy'n cadw tair gast fridio neu fwy, sy'n bridio tair torraid neu fwy o gŵn bach mewn cyfnod 12 mis, ac sy'n cyflenwi neu'n gwerthu cŵn bach o'r toreidiau hyn. Gorfodir Rheoliadau 2014 gan awdurdodau lleol. Disodlodd Rheoliadau 2014 [Ddeddf Bridio Cŵn 1973](#) yng Nghymru a chyflwynodd feini prawf lles manylach ar gyfer bridio cŵn.

Fel y mae'r ddeiseb yn nodi, nid oes terfyn uchaf ar nifer y geist bridio y gellir eu cadw mewn sefydliad bridio cŵn trwyddedig.

[Yn 2019, roedd](#) 260 o drwyddedau bridio cŵn ar waith yng Nghymru, ac roedd tair ohonynt ar gyfer mwy na 100 o eist bridio.

Pryderon ynghylch y Rheoliadau presennol

Bu galwadau i wella lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio cŵn ledled y DU. Yng Nghymru, bu apeliadau i Lywodraeth Cymru adolygu a chryfhau Rheoliadau 2014. Mae'r rhain yn cynnwys apeliadau gan [RSPCA Cymru](#), y [Kennel Club](#), a'r [Dogs Trust](#) ([PDF: 2.97MB](#)).

Cyfeiriodd ymatebwyr i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â [Gwerthu Cŵn a Chathod Bach drwy Drydydd Parti](#) (Chwefror 2019) at anallu awdurdodau lleol i ymchwilio'n briodol i sefydliadau bridio trwyddedig oherwydd diffyg adnoddau a hyfforddiant.

Cafwyd galwadau o'r newydd am ragor o reoliadau ar y sector bridio cŵn yn dilyn [rhaglen ddogfen gan y BBC](#) a dynnodd sylw at amodau gwael mewn rhai sefydliadau bridio.

Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn dilyn rhaglen ddogfen BBC y cyfeiriwyd ati uchod, ym mis Hydref 2019 amlinellodd [Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig...](#) ('y Gweinidog') gamau gweithredu brys i reoleiddio'r diwydiant. Roedd hyn yn cynnwys comisiynu adolygiad o Reoliadau 2014 gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

Cafodd y mater [ei drafod eto yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr 2020](#). Ar ôl trafod adolygiad y Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid, ymrwymodd y Gweinidog i ddeddfu yn

y maes hwn yn ystod y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ailflaenoriaethu ei rhaglen ddeddfwriaethol yn sgil ei hymateb i argyfwng y coronafeirws.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru i adolygu Rheoliadau 2014 ddiwedd 2019. Cafodd [adroddiad y Grŵp](#) ei gyhoeddi ar 4 Mawrth 2020 ochr yn ochr â [datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog](#). Yn ei datganiad, ymrwymodd y Gweinidog i neilltuo cyllid pwrpasol i wella'r gwaith a wneir mewn perthynas â Rheoliadau 2014.

O ran yr uchafswm maint ar gyfer sefydliadau bridio, mae'r adolygiad yn nodi'r canlynol (tudalen 33):

The current regulations allow breeders to license any size of breeding operation, provided that the regulations, including the licence conditions, are met. All stakeholders agreed that socialisation and enrichment was difficult to undertake on a large scale in any dog breeding establishment. It has been reported to the group that there is very little evidence of successful socialisation and enrichment programmes being undertaken at large scale private breeding establishments. However, stakeholders hold different opinions on whether there should be a cap on the number of breeding animals at a single premise. Some stakeholders believe that the largest establishments have better welfare provision than some medium-sized establishments. Many stakeholders consider that staffing ratios, and effective socialisation and enrichment plans are of more importance than overall dog numbers.

R9. The group recommends that further research is necessary in order to determine whether there would be an animal welfare benefit to capping the number of breeding bitches, and the number of total dogs, housed at a single breeding establishment. Without this it is not possible to determine whether there should be a limit on breeding unit size, or what that limit should be.

Yn ei datganiad, dywedodd y Gweinidog y gallai rhai o'r argymhellion gael eu mabwysiadu o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth bresennol ond y byddai angen rheoliadau newydd i weithredu eraill.

Mewn llythyr at y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn â'r Ddeiseb hon, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

Byddai angen newid deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r camau a gaiff eu hawgrymu. Nodais yn glir yn fy Natganiad Ysgrifenedig fod yn rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu cyn cynnig diwygiadau i'r Rheoliadau Bridio presennol.

Mae nifer o argymhellion wedi deillio o'r adolygiad diweddar o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) 2014 a gynhaliwyd gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a bydd swyddogion yn mynd i'r afael â'r rhain yn awr.

Camau a gymerwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Pwyllgor wedi cael sawl deiseb ynghylch lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio cŵn yn ystod y Cynulliad hwn:

- [P-05-915: P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru.](#) Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Laura Clays, ar ôl casglu 112 o lofnodion;
- [P-05-939 Gosod embargo ar unwaith ar drwyddedau bridio cŵn newydd, ar adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio nes bod y rheoliadau'n addas i'r diben a nes bod modd eu gorfodi.](#) Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan C.A.R.I.A.D., ar ôl casglu 1,738 o lofnodion;
- [P-05-951 Gosodwch derfyn cyfreithiol ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru.](#) Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dinah Mulholland ar ôl casglu 229 o lofnodion.

Holodd [Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig](#) y Cynulliad y Gweinidog am y maes polisi hwn ddiweddaraf [yn ystod ei sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft \(2020-21\) ar 16 Ionawr 2020](#). Cydnabu'r Gweinidog y gallai fod oblygiadau ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol wrth orfodi rhagor o reoliadau. Awgrymodd y gellid lliniaru hyn pe bai awdurdodau lleol yn cydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu hadnoddau a'u harbenigedd. Cydnabu'r Gweinidog y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol yn y pen draw ar ôl i'r holl gyfleoedd eraill ddod i ben.

[Mewn ymateb \(PDF: 425KB\)](#) i [adroddiad y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft \(2020-21\) \(PDF: 254KB\)](#), cyfeiriodd y Gweinidog at brosiect cwmpasu sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdodau lleol i benderfynu faint o adnoddau ychwanegol sydd eu hangen:

Mae swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol i drafod rhwystrau i orfodi amaterion sy'n ymwneud â thrwyddedu sefydliadau bridio. Ynghyd â'r trafodaethau hynny, mae prosiect cwmpasu ar y gweill gan yr Awdurdodau Lleol i benderfynu pa adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol i wneud y defnydd gorau o

strwythurau presennol a sicrhau dull cyson o drwyddedu sefydliadau bridio ledled Cymru.

Ar 12 Rhagfyr 2018 cynhaliodd y Cynulliad ddadl fer ynglŷn â bridio cŵn, pan ddadleuodd rhai o Aelodau'r Cynulliad fod arferion gwael o ran bridio cŵn yn anghymesur o uchel yng Nghymru.

Ers hynny, mae bridio cŵn wedi bod yn destun dadleuon yn y Cyfarfod Llawn saw! gwaith. Mae hyn wedi cynnwys galwadau gan Aelodau'r Cynulliad i Lywodraeth Cymru adolygu Rheoliadau 2014. Trafodwyd lles mewn sefydliadau bridio cŵn yn y Cyfarfod Llawn yn ddiweddar ar 29 Ionawr 2020. Anogodd yr Aelodau y Gweinidog i weithredu yn y maes polisi hwn a chyflwyno deddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ffactorau sy'n rhwystro'r gwaith o orfodi'r Rheoliadau presennol a rhoddodd hefyd 'sicrwydd cadarn y bydd y ddeddfwriaeth honno yn ei lle yn y tymor hwn'.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-951
Ein cyf/Our ref LG/00650/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

17 Mawrth 2020

Annwily Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ynghylch Deiseb P-05-951 Gosod Terfyn Cyfreithiol ar Nifer Uchaf y Geist Bridio.

Byddai angen newid deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r camau a gaiff eu hawgrymu. Nodais yn glir yn fy Natganiad Ysgrifenedig fod yn rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu cyn cynnig diwygiadau i'r Rheoliadau Bridio presennol. Heb wneud hyn ni fydd y rheoliadau newydd yn effeithiol.

Mae nifer o argymhellion wedi deillio o'r adolygiad diweddar o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) 2014 a gynhaliwyd gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a bydd swyddogion yn mynd i'r afael â'r rhain yn awr.

Gallwch weld yr adroddiad a'i argymhellion gan ddefnyddio'r ddolen isod:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-lles-anifeiliaid-bridio-cwn-cymru-2014>

Hoffem eich sicrhau nad ydym yn anwybyddu'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno. Rwy'n siwr eich bod yn cytuno bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i'r deddfwriaeth neu unrhyw gamau gorfodi fod yn gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n rhaid sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn unrhyw newidiadau rheoliadol yn y dyfodol a'u bod yn cyflawni'r hyn a fwriedir, a gall hyn gymryd amser.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

Lesley Griffiths AC / AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

P-05-951 Impose a legal limit on the maximum number of breeding bitches in licensed dog breeding establishments in Wales – Petitioner to Committee, 01.06.20

Dear Petitions Committee

In response to the Minister's letter I would firstly like to say that I commend the comprehensive nature of the recent review of the Animal Welfare (Dog Breeding) Regulations 2014, by the Wales Animal Health and Welfare Framework Group, and welcome its recommendations.

At the time that I started the petition I was not aware that a review of the regulations was underway.

The only point I would like to make concerns Recommendation 9 in the review:

'...further research is necessary in order to determine whether there would be an animal welfare benefit to capping the number of breeding bitches, and the number of total dogs, housed at a single breeding establishment. Without this it is not possible to determine whether there should be a limit on breeding unit size, or what that limit should be.'

'R9. Further impact assessment, and examination of the evidence, should be carried out in order to determine whether there would be an animal welfare benefit to capping the number of breeding bitches, and the number of total dogs, housed at a single establishment.'

My petition calls for a public consultation to be held by Welsh Government on placing a cap on the number of breeding bitches in a single breeding establishment and I would like to stress that the views of the people of Wales, and particularly the views of residents in my region of West Wales - the heart of the puppy farming industry - are vital to this impact assessment and evidence gathering process. The residents of West Wales, who are in population terms possibly the largest group of 'stakeholders' here, have lived with the negative impacts of large-scale dog breeding for too long. This is evidenced by the number of locally raised petitions and their signatories in the West Wales area, and the number of planning objections to applications to build or expand large scale breeding establishments on the grounds of excess noise, environmental pollutants, and distress to the dogs. Our reputation as a region, and in a larger sense our reputation as a progressive nation, is soiled by this shameful activity.

Finally, I would like to say that the primary motivation of large-scale dog breeders is to make money. They create a market for puppies in order to do this. They will always find loopholes in regulation and legislation unless it is so cut and dried, so black and white, that there is no wiggle room. The pragmatic and humane solution, in my opinion, is to legislate to place a very low cap on the number of breeding bitches in any licensed breeding kennel. I think you will find that if the Welsh Government were to consult with the Welsh public on this proposal, they would agree.

Best wishes

Dinah Mulholland

P-05-953 Gwahardd poteli llaeth plastig defnydd untro mewn ysgolion

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan St Aidan's Church in Wales VA School, ar ôl casglu cyfanswm o 369 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydyn ni, plant Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Sant Aidan, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i newid y ffordd rydyn ni'n defnyddio poteli llaeth plastig mewn ysgolion. Bob dydd yng Nghymru, rydym yn defnyddio oddeutu 300 cilogram o boteli llaeth plastig fel rhan o'r cynllun llaeth am ddim mewn ysgolion. Credwn ei fod yn portreadu barn negyddol o ran cynaliadwyedd, am fod mwy o bobl yn prynu mwy o blastig. Mae'n warthus faint o boteli plastig rydyn ni'n eu defnyddio.

Gwneir plastig allan o nwy naturiol, olew crai a glo. Rydym yn defnyddio tua 4,000 o boteli plastig bron bob blwyddyn ar gyfer y cynllun llaeth am ddim hwn. Rydyn ni am i chi wahardd poteli llaeth plastig defnydd untro mewn ysgolion. Rydyn ni'n awgrymu y dylai pob ysgol yng Nghymru brynu poteli mawr o laeth a'i arllwys i gwpanau plastig y gallwn eu defnyddio eto. Rydym yn defnyddio tanwyddau ffosil yn gyflymach nag y gallwn eu datblygu. Diolch i chi am ddarllen y ddeiseb hon ac am helpu'r wlad, gobeithio, i waredu ar y gwastraff hwn.

Etholaeth a Rhanbarth y Senedd

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwahardd poteli llaeth plastig defnydd untro mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Mehefin 2020
Petitions Committee | 9 June 2020

Cyfeirnod: RS20/12392-1

Rhif y ddeiseb: P-05-953

Teitl y ddeiseb: Gwahardd poteli llaeth plastig defnydd untro mewn ysgolion

Testun y ddeiseb: Rydyn ni, plant Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Sant Aidan, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i newid y ffordd rydyn ni'n defnyddio poteli llaeth plastig mewn ysgolion. Bob dydd yng Nghymru, rydym yn defnyddio oddeutu 300 cilogram o boteli llaeth plastig fel rhan o'r cynllun llaeth am ddim mewn ysgolion. Credwn ei fod yn portreadu barn negyddol o ran cynaliadwyedd, am fod mwy o bobl yn prynu mwy o blastig. Mae'n warthus faint o boteli plastig rydyn ni'n eu defnyddio.

Gwneir plastig allan o nwy naturiol, olew crai a glo. Rydym yn defnyddio tua 4,000 o boteli plastig bron bob blwyddyn ar gyfer y cynllun llaeth am ddim hwn. Rydyn ni am i chi wahardd poteli llaeth plastig defnydd untro mewn ysgolion. Rydyn ni'n awgrymu y dylai pob ysgol yng Nghymru brynu poteli mawr o laeth a'i arllwys i gwpanau plastig y gallwn eu defnyddio eto. Rydym yn defnyddio tanwyddau ffosil yn gyflymach nag y gallwn eu datblygu. Diolch i chi am ddarllen y ddeiseb hon ac am helpu'r wlad, gobeithio, i waredu ar y gwastraff hwn.



1. Cefndir

Mae plastigion untro, neu blastigion a deflir i ffwrdd, wedi'u dyfeisio i gael eu defnyddio unwaith, ac yna eu taflu neu eu hailgylchu. Maent yn cynnwys eitemau fel poteli plastig, gwellt yfed, cwpanau coffi a deunydd pecynnu bwyd brys. Amlygodd y sylw diweddar yn y cyfryngau, yn arbennig gan gyfres [Blue Planet II y BBC](#), faint o weddillion plastig sydd yn ein cefnforoedd o ganlyniad i'n harfer o 'daflu' pethau i ffwrdd. Amlygir effaith plastig untro ar yr amgylchedd morol gan y ffaith ei fod mor gyffredin mewn canlyniadau arolygon sbwriel ar ein traethau. Dangosodd [adroddiad glanhau traethau Prydain 2019](#) gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol mai darnau o blastig a pholystyren yw'r eitemau sbwriel mwyaf cyffredin a geir ar draethau'r DU.

Mewn adroddiad yn 2018 gan Eunomia, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ar opsiynau ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr yng Nghymru, nodwyd bod poteli plastig yn cyfrif am 4.2 y cant (yn ôl pwysau) o'r holl sbwriel yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn modelu'r llifau gwastraff amcangyfrifedig ar gyfer cynwysyddion diodydd, gan amcangyfrif bod poteli plastig yn cyfrif am 29,629 tonnall o wastraff, gyda chyfradd ailgylchu amcangyfrifedig o 64.8 y cant.

Mae [cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr](#) (EPR), fel y'i cyflwynwyd gan [Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr UE](#), yn ffordd o annog cynhyrchwyr i ystyried cyfnod cylch oes cynnyrch ar ôl ei ddefnyddio drwy roi cyfrifoldeb iddynt gasglu, trefnu, trin a gwaredu ar y cynnyrch. Byddai defnyddio dull cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gyflenwi llaeth ysgol yn golygu annog cynhyrchwyr i leihau gwastraff wrth ddyfeisio deunyddiau pecynnu.

Archwiliodd astudiaeth a wnaed gan WRAP Cymru yn 2019, yn [cymharu opsiynau pecynnu llaeth ar gyfer ysgolion cynradd](#), yr effaith amgylcheddol o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fathau o ddeunydd pecynnu ar gyfer llaeth a gyflenwir i ysgolion mewn ardal beilot yn Sir Benfro. Roedd y mathau o ddeunydd pecynnu a archwiliwyd yn cynnwys:

- potel blastig (y fformat pecynnu presennol a ddefnyddiwyd fel gwaelodlin);
- potel wydr fel dewis amgen; a
- pergalau fel dewis amgen (storio llaeth mewn swmp mewn cynhwysydd sy'n ffitio mewn peiriant cyflenwi wedi'i oeri).

Canfu'r astudiaeth fod:

...poteli gwydr a phergalau yn cynnig arbedion cost o tua 15-20 y cant dros y poteli plastig a ddefnyddir ar hyn o bryd, a phergalau yw'r opsiwn mwyaf cost-effeithiol.

Wrth edrych ar effaith amgylcheddol y gwahanol fathau o becynnu, canfu'r astudiaeth fod 'agosrwydd y gadwyn gyflenwi yn cael dylanwad sylweddol', gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

Pan fo effeithiau'r gadwyn yr un fath â'i gilydd, yna pergalau, wedyn poteli gwydr, sy'n cynnig yr effeithiau amgylcheddol lleiaf, gan arwain at arbedion posibl o 25-30 y cant mewn allyriadau NTG.

Dulliau mewn ysgolion

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gaffael llaeth (a'i ddeunydd pecynnu) ar gyfer ysgolion gan gyflenwyr.

Gall ysgolion sy'n rhan o'r cynllun llaeth am ddim mewn ysgolion gynnig llaeth am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen a llaeth am bris gostyngol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r Gymuned Ewropeaidd yn talu cymhorthdal ac mae Llywodraeth Cymru yn talu cymhorthdal atodol. O ran disgyblion Cyfnod Allweddol 2, mae Llywodraeth Cymru yn talu cymhorthdal mewn perthynas â chost llaeth ysgol ochr yn ochr â'r Gymuned Ewropeaidd. Gall ysgolion, awdurdodau lleol, cyflenwyr neu sefydliadau eraill hawlio'r cymhorthdal. Gall disgyblion cymwys gael hyd at 250 mililitr o gynnyrch llaeth cymorthdaledig ar gyfer pob diwrnod ysgol.

Gall cyflenwyr llaeth ysgol ddarparu llaeth i ysgolion mewn poteli mawr. Byddai'r ysgol wedyn yn ei ddsbarthu i ddisgyblion (mewn cwpanau), neu gellir ei ddarparu mewn dogneau unigol y gellir eu pecynnu mewn cartonau sydd yn aml â gwelltyn ynghlwm mewn llawes blastig, neu gall y cyflenwr ddarparu gwellt ar wahân.

2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru:

Mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ar 27 Medi 2017, dywedodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, "fel Llywodraeth, rydym yn derbyn bod angen gwneud mwy i wella ein cyfradd ailgylchu ymhellach ac i fynd i'r afael â sbwriel a'r materion sy'n gysylltiedig â chymdeithas a diwylliant 'taflu'. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd mai'r nod fyddai "atal sbwriel rhag mynd i mewn i'r amgylchedd yn y lle cyntaf", ac i "werthfawrogi'r adnoddau hynny rydym ni'n eu cymryd yn ganiataol".

Mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru a wnaed yn y Cyfarfod Llawn ar [8 Mai 2018](#), cyhoeddodd Hannah Blythyn AC, Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd, fod "Llywodraeth Cymru wedi llofnodi [cytundeb plastigau y DU WRAP](#)", sy'n ceisio dileu deunydd pacio untro erbyn 2025.

Ar 18 Mawrth 2020 cyhoeddodd Lywodraeth Cymru [ei bwriad i wahardd plastig untro](#) yng Nghymru, fel 'rhan o ddull ehangach, integredig o fynd i'r afael â phroblemau sy'n cael eu creu gan ormod o blastig a sbwriel mewn cymunedau'. Cadarnhaodd Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, y bydd ymgynghoriad ar y cynigion yn cael ei gynnal 'yn ystod y misoedd nesaf', a disgwylir i'r 'cyfyngiadau ddod i rym yn ystod hanner cyntaf 2021'.

Ynghyd â'r cyhoeddiad hwn, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n [ymgyngori ar 'mwy nag ailgylchu'](#); sef strategaeth economi gylchol sy'n nodi cynigion sy'n cynnwys "symud tuag at ddyfodol diwastraff erbyn 2050". Lanswyd yr [ymgyngoriad](#) ar 19 Rhagfyr 2019, a bydd yn dod i ben ar 24 Ebrill 2020.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno [Bil yr Amgylchedd 2020-21](#), sy'n deddfu mewn nifer o feysydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr diwygiedig; pwerau i reoleiddio ar gyfer safonau eco-ddylunio a gwybodaeth am effeithlonrwydd adnoddau ar draws ystod ehangach o gynhyrchion; ac yn darparu fframwaith ar gyfer cynllun dychwelyd ernes.

Gosododd Llywodraeth Cymru y [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil](#) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 26 Chwefror 2020. Mewn perthynas â'r darpariaethau a wneir ar gyfer rheoli gwastraff EPR a phlastigau untro, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn 'gyfle amserol i symud ymlaen â nodweddion allweddol ei strategaeth economi gylchol'.

Wrth [ymateb i'r ddeiseb hon](#), dywedodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru:

... wedi bod yn siarad â phlant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru fel rhan o'r ymgynghoriad ac mae sut yr ydym yn defnyddio plastig yn thema bwysig sydd wedi codi ledled y wlad.

Tynnodd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda WRAP Cymru ar yr astudiaeth a wnaed yn 2019, yn [cymharu opsiynau pecynnu llaeth ar gyfer ysgolion cynradd](#) (a drafodir uchod), ac anogodd y deisebwyr i rannu eu pryderon â Chyngor Sir Penfro, 'sy'n gyfrifol am benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu darparu yn ei ardal'.

3. Camau a gymerwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafododd y [Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig](#) yn fras y mater o ddisodli poteli llaeth plastig gyda gwydr fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i [leihau gwastraff plastig](#). Tynnodd Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor, sylw at y '[symudiad enfawr i ffwrdd o wydr i blastig](#)' a gofynnodd a oedd hyn yn broblem. Wrth gyflwyno tystiolaeth, tynnodd David Jones o [Just One Ocean](#) sylw at [sut mae](#)

plastig wedi 'gwella ein bywydau yn ogystal â gwneud niwed', gan bwysleisio sut y mae angen cydbwysedd:

If you were to weigh up the cost of replacing all our plastic bottles with glass, you then have an increase in transportation of that product because of the increased weight. That's going to increase the amount of fuel you use and that's more emissions into the atmosphere

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi trafod deiseb debyg - P-05-822 gwahardd gwellt plastig (wrth yfed llaeth) yn ein hysgolion. Caewyd y ddeiseb ym mis Chwefror 2020 yn dilyn gohebiaeth gan WRAP Cymru a dynnodd sylw at fwriad Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y defnydd o wellt plastig erbyn 2020.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor eisoes wedi trafod a chwblhau'r deisebau cysylltiedig canlynol, gyda'r nod o leihau gwastraff plastig:

- P-05-874 Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru
- P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy;
- P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru; a
- P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig.

Mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn ystyried deiseb gysylltiedig P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro... mae'n bryd cyflwyno treth!

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref HB/00175/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

1 Ebrill 2020

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ar ran Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru St Aidan's ynghylch y defnydd o boteli llaeth plastig mewn ysgolion. Gofynnwyd i mi eich ateb gan fy mod yn gyfrifol am wastraff ac ailgylchu.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod gan bobl ifanc ddiddordeb yn y deunyddiau rydym yn eu defnyddio a'r modd y gallwn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio am gyfnod mor hir â phosibl a hefyd yn falch eu bod yn barod i'n herio. Rydym wrthi'n ymgynghori ynghylch ein strategaeth newydd ar economi gylchol '*Mwy nag Ailgylchu*' sy'n amlinellu ein nod o sefydlu economi gylchol yng Nghymru, lle y caiff gwastraff ei osgoi a lle y caiff adnoddau eu defnyddio am gyfnod mor hir â phosibl. Mae gwahanol ddogfennau ar gael ar ein gwefan gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen a chyflwyniad y gallwch ei lawrlwytho.

Rydym wedi bod yn siarad â phlant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru fel rhan o'r ymgynghoriad ac mae'r defnydd o blastig wedi bod yn thema bwysig sydd wedi cael ei chodi ganddynt.

Un o brif gamau gweithredu'r strategaeth yw lleihau'n raddol y defnydd o blastig untro ac rydym hefyd yn awyddus i sicrhau mai Cymru fydd y wlad gyntaf i beidio ag anfon unrhyw blasting i'w dirlenwi. Yn dilyn ymgynghoriad y llynedd rydym hefyd yn bwrw ymlaen â diwygiadau blaengar a fydd yn newid y modd yr ydym yn defnyddio, casglu ac aildefnyddio plastig drwy gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynhwysyddion diodydd a chyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau er mwyn lleihau'n raddol y defnydd o blasting diangen, untro sy'n cael ei daflu'n rheolaidd fel sbwriel.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O safbwynt cyflwyno newid o ran y defnydd o boteli llaeth plastig mewn ysgolion, rydym wedi cydweithio â Wrap Cymru ar astudiaeth ymchwil sy'n ystyried y mater hwn yn benodol. Gallwch weld manylion y gwaith [yma](#). Gallai Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru St Aidan's hefyd ddymuno tynnu sylw Cyngor Sir Penfro at eu pryderon gan mai nhw sy'n gyfrifol am benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi o fewn eu hardal.

Yn gywir,



Hannah Blythyn AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

ST AIDAN'S CHURCH IN WALES V.A. SCHOOL

Wiston, Haverfordwest, Pembrokeshire, SA62 4PS
Telephone: 01437 731449
Email: admin.staidans@pembrokeshire.gov.uk
<http://www.st-aidans.pembrokeshire.sch.uk/>



Headteacher: Mrs. S. James

*Our school is a welcoming, warm hearted place and a bubble of trust where we can feel safe to talk to God and follow the Christian values. We are encouraged to become independent and confident in ourselves as well as in society. We are challenged to reach our highest potential and climb the ladder of life because we **'Believe and Achieve'**.*

Janet Finch-Saunders AM
Chair, Petitions Committee National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

1st June 2020

Dear Chair

Thank you for your email of 18th May 2020 asking for our views on the attached letter from Hannah Blythyn AM. The pupils are very proud that their petition will be considered, despite being very disappointed that they were not able to present it on the steps of the Senedd due to the lockdown.

I have explained the contents of the letter from Ms Blythyn and the findings from Wrap Cymru to the children through our digital learning platforms and have had responses from them which I have included in the points made below. The pupils welcomed the comments made by Ms Blythyn and can see she is clearly very supportive of the petition. They feel that their ideas and thoughts have been taken into consideration.

1. The pupils are extremely positive about Wales becoming the first country to send zero waste to landfill. They clearly understand how damaging it is to the environment and feel that this move would make Wales a *'great place'* and also *'it is amazing because anything to try and reduce global warming is an excellent idea'*.
2. They feel that a Deposit Return Scheme would be an excellent incentive to encourage people to recycle their waste and this is something that would have impact on the wider community, not just schools. In general, pupils are often more ecologically aware than adults as it is something that is discussed and taught on a regular basis.
3. They are very supportive of the applying a restriction on Single Use Plastics as hopefully in the future this will lead to *'no product [being] produced in a container'*

that can't be recycled'. This would certainly have an impact on schools. Many pupils bring water and food in plastic containers that are single use and through research they have found out that the extent to which all plastics can be recycled is limited. The pupils have previously made comments after inspecting rubbish in the school and after lunchtime and realise that although recycling facilities are available, they are not used consistently. They are also aware that only about a third of plastic pots are ever recycled and just over half of all plastic bottles.

4. The findings from Wrap Cymru were very interesting. Before lockdown, as a class we had investigated the potential of having a Pergyl unit in school to dispense milk. This was greeted by the pupils as an excellent idea. Discussion was had around the need for hygiene and the washing up of cups, but it was agreed that the extra time that was needed for this would be worth it. The pupils looked at the costs of purchasing a unit and were quite shocked. They appreciated that it was a one off cost, but also realised that as a small school, we run a very tight budget. The price of a unit equated to double the cost of classroom consumables for this last academic year. The pupils felt that in the interests of equality and fairness for all schools that the one off cost for purchasing a Pergyl unit should be met by the Welsh Government. Previously there had been a great debate in class on the introduction of glass bottles as this was something being trialled in other schools in the county. Looking at the findings from Wrap Cymru it was clear that transportation is the main cost when comparing all 3 systems in school. Given that Wales has a history of innovation in many industries, would making glass bottles be an area to develop with entrepreneurs, thus reducing transportation costs across the country?

Class 4 are fully appreciative of the support they have had for their petition as well as advice from Amber Lewis from the Assembly Commission Staff. They feel proud that their petition has reached its current stage and feel very excited that their views and ideas could be instrumental in changing policy in Wales.

I will certainly make the link to Senedd TV available to the children on 9th June so that they can see the final outcome of their petition.

Yours sincerely,



Wendy MacGarvie

Class Teacher and on behalf of all the pupils in class 4, St Aidan's Church in Wales VA School

P-05-957 Gorsaf yn Sanclêr – Cefnogwch y cais am orsaf drennau yn Sanclêr
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cyngor Tref St Clears, ar ôl casglu 562 o lofnodion ar lein a 582 ar bapur, sef cyfanswm o 1,144 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i argymhell Sanclêr i Network Rail fel lleoliad ar gyfer gorsaf reilffordd newydd yng Nghymru. Bydd Sanclêr a'r cymunedau cyfagos yn elwa'n fawr o ailagor yr orsaf reilffordd, bydd yr orsaf yn cau'r bwlch yn llinell Gorllewin Cymru a galluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r trê'n. Credwn y byddai gorsaf yn Sanclêr yn dod â llawer o fuddion gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol, lleihau ôl troed carbon a mwy o dwristiaeth yn yr ardal.

Etholaeth a Rhanbarth y Senedd

- Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gorsaf yn Sanclêr – Cefnogwch y cais am orsaf drenau yn Sanclêr

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Mehefin 2020
Petitions Committee | 9 June 2020

Cyfeirnod: RS20/12645-1

Rhif y ddeiseb: P-05-957

Teitl y ddeiseb: Gorsaf yn Sanclêr – Cefnogwch y cais am orsaf drenau yn Sanclêr

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i argymhell Sanclêr i Network Rail fel lleoliad ar gyfer gorsaf reilffordd newydd yng Nghymru. Bydd Sanclêr a'r cymunedau cyfagos yn elwa'n fawr o ailagor yr orsaf reilffordd, bydd yr orsaf yn cau'r bwch yn llinell Gorllewin Cymru a galluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r trênn. Credwn y byddai gorsaf yn Sanclêr yn dod â llawer o fuddion gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol, lleihau ôl troed carbon a mwy o dwristiaeth yn yr ardal.

1. Y cefndir

Agorodd gorsaf Sanclêr yn sir Gaerfyrddin yn y 1850au ac roedd yn gwasanaethu tref Sanclêr nes i'r orsaf gau ym 1964 yn dilyn Adroddiad Beeching.

Yn wahanol i'r Alban, nid yw'r cyfrifoldeb dros seilwaith rheilffyrdd yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Yn hytrach, mae ariannu buddsoddiadau mewn



seilwaith rheilffyrdd a gweithrediadau Network Rail yng Nghymru a Lloegr yn fater i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Drafnidiaeth.

Er bod gan Llywodraeth Cymru bwerau i fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd, nid yw'n cael dyraniad grant bloc at y diben hwn ac mae'n cael ei hystyried yn "[hyrwyddwr trydydd parti](#)" ar gyfer prosiectau seilwaith. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi arian sylweddol yn y seilwaith rheilffyrdd ers datganoli.

Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid trwy Network Rail i ariannu yn rhannol orsafoedd newydd yng Nghymru a Lloegr [drwy ei Chronfa Gorsafoedd Newydd](#). Ar hyn o bryd, mae £20 miliwn ar gael trwy Gronfa Gorsafoedd Newydd 3 sydd ar agor i unrhyw hyrwyddwr trydydd parti [sy'n bodloni amodau'r gronfa](#). Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 5 Mehefin.

Dyma drydydd iteriad y Gronfa Gorsafoedd Newydd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar gyfer Cronfa 1 ym mis Ionawr a mis Chwefror 2013 ac ariannodd bum gorsaf, gan gynnwys Pye Corner yng Nghasnewydd. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar gyfer Cronfa 2 rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2016, gyda gorsaf Bow Street yng Ngheredigion yn cael ei hariannu.

Bydd Cronfa 3 yn ariannu hyd at 75 y cant o gost cyfalaf adeiladu gorsafoedd newydd neu orsafoedd a gaewyd yn flaenorol. Bydd [nifer y gorsafoedd a ariennir](#) yn dibynnu ar faint ohonynt all ddangos eu bod yn darparu gwerth da am arian yn ogystal â'u cost.

Cyhoeddwyd Cronfa 3 [gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth](#) ym mis Ionawr 2020 fel rhan o gronfa ehangach "Adfer eich Rheilffyrdd" gwerth £500 miliwn i ysgogi gwrthdroi toriadau cyfnod Beeching.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ymrwymodd [cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol \(CCTC\) 2015](#) Llywodraeth Cymru i ddatblygu meini prawf asesu a llunio "rhestr wedi'i blaenoriaethu o orsafoedd newydd i'w hystyried ymhellach". Nododd restr hir o 46 gorsaf bosibl, gan gynnwys Sanclêr.

Yn dilyn hynny, datblygodd Llywodraeth Cymru broses asesu tri cham, a ddisgrifiwyd mewn [llythyr ym mis Mehefin 2017 gan y Gweinidog dros yr Economi a Seilwaith ar y pryd at holl Aelodau'r Cynulliad](#) (PDF, 488KB).

Ym mis Awst 2019 rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar y broses mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gan Mark Isherwood AS:

From an original list of 46 possible new stations considered by the assessment process, twelve were prioritised for stage 2 assessment and four of these 12 have been selected to be taken forward to a Stage 3 assessment. This will include undertaking a WelTAG Stage One Report, business case and Network Rail's Governance for Railway Investment Projects (GRIP) process.

Y pedair gorsaf a aeth ymlaen at y cam nesaf oedd: Carno (sir Drefaldwyn); Melin Trelái/Parc Victoria (Caerdydd); Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd (sir y Fflint); a Sanclêr.

Wrth ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gan Russell George AS ym mis Hydref 2019, nododd y Gweinidog fod cynnig Sanclêr yn cael ei ddatblygu trwy waith ar Fetro De-orllewin Cymru. Dyrannwyd cyllid ar gyfer hyn drwy'r Gronfa Drafnidiaeth Leol.

Mae Metro De-orllewin Cymru, neu Fetro Bae Abertawe yn y camau datblygu cynnar, gyda Thrafnidiaeth Cymru yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol perthnasol.

Mae'r llythyr sy'n ymateb i'r ddeiseb hon gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses ddatblygu ar gyfer y gorsafoedd arfaethedig newydd:

Ysgrifennodd y Gweinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 2 Mawrth ynglŷn â chyllid Llywodraeth y DU ar gyfer buddsoddi mewn "Adfer eich Rheilffordd". Eir ati yn y llythyr hwnnw i nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Gorsafoedd Newydd 3 Llywodraeth y DU, sef Glannau Dyfrdwy, Carno, Sanclêr a Melin Trelái/Parc Victoria. Mae asesiad dichonoldeb arall wrthi'n cael ei gynnal ar bob un o'r rhain – asesiad o'r opsiynau datblygu ar gyfer Metro'r De-orllewin yn achos Sanclêr.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y cyfnod ymgeisio a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn un byr ac na ellid bod wedi rhagweld hynny – pennwyd dyddiad cau o 5 Mehefin – comisiynwyd Trafnidiaeth Cymru (TC) i wneud rhagor o waith asesu a gwerthuso annibynnol gyda'r nod o sicrhau ein bod, yn achos pob un o'r pedair blaenoriaeth sydd ar y rhestr fer, yn barod i gyflwyno cais. Mae'r Gweinidog wedi gofyn hefyd i'r adroddiad gynnis

atebion i'r problemau o ran amserlennu a materion eraill yn ymwneud â gweithredu a nodwyd gan y diwydiant rheilffyrdd hyd yma, a hynny oherwydd y bydd Llywodraeth y DU yn gofyn i'r diwydiant hwnnw fynegi barn am y ceisiadau a gaiff eu cyflwyno iddi.

Mae'r llythyr yn nodi y gwnaeth Trafnidiaeth Cymru ymgysylltu ag Aelod Seneddol yr etholaeth a Chyngor Tref Sanclêr ddechrau mis Ebrill. Aiff ymlaen i ddweud:

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer astudiaeth TC yn cynnwys gofyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid. O ran Sanclêr, dywedwyd wrth gynghorwyr annibynnol TC y dylid cynnwys y Cyngor Sir, Cyngor y Dref a chynrychiolwyr etholedig wrth wneud hynny.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Trafodwyd cynigion ar gyfer gorsafoedd newydd yn gyffredinol, a Sanclêr yn benodol, yn y Cyfarfod Llawn ar sawl achlysur yn ystod y Pumed Senedd.

Yn fwyaf diweddar, ar 26 Chwefror 2020 ymatebodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates, i gwestiwn gan Angela Burns AS ynglŷn â'r cynnig ar gyfer gorsaf Sanclêr, a gyfeiriodd at y ddeiseb hon. Dywedodd:

Gallaf roi sicrwydd i'r Aelod fy mod yn cefnogi'r cais ar gyfer gorsaf Sanclêr. Mae'n un o bedwar sydd ar y rhestr fer ledled Cymru am asesiad pellach ac enwebiad posibl fel blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad gan Lywodraeth y DU. Credaf y byddai o gymorth pe bai Llywodraeth y DU yn dangos ei bod yn barod i fuddsoddi mwy yn y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru, ac felly mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu o dan raglen metro'r de-orllewin.

Mae'r Pwyllgor Deisebau hefyd wedi ystyried nifer o ddeisebau eraill sy'n galw am orsafoedd rheilffordd newydd neu ailagor gorsafoedd:

- Cynnwys gorsaf ar gyfer Mynachdy a Thal-y-bont fel Rhan o Unrhyw Cynnig ar Gyfer Metro Caerdydd (cwblhawyd ym mis Medi 2017);
- Ailagor Gorsaf Carno (cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2018); a
- Ailagor gorsaf Drenau Crymlyn (cwblhawyd ym mis Tachwedd 2018).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Department for Economy and Transport



Ein cyf/Our ref TO/KS/01442/20

Janet Finch-Saunders AS
seneddpetitions@cynulliad.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
6 Mai 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Ebrill ynglŷn â Deiseb P-05-957 "Stop Nesaf Sanclêr" – Cefnogwch y cais am orsaf reilffordd yn Sanclêr.

O ystyried yr argyfwng presennol, a faint o ohebiaeth sy'n dod i law Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a'r Gogledd, mae wedi gofyn imi anfon ateb atoch y tro hwn.

Ysgrifennodd y Gweinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 2 Mawrth ynglŷn â chyllid Llywodraeth y DU ar gyfer buddsoddi mewn "Adfer eich Rheilffordd". Eir ati yn y llythyr hwnnw i nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Gorsafoedd Newydd 3 Llywodraeth y DU, sef Glannau Dyfrdwy, Carno, Sanclêr a Melin Trelái/Parc Victoria. Mae asesiad dichonoldeb arall wrthi'n cael ei gynnal ar bob un o'r rhain – asesiad o'r opsiynau datblygu ar gyfer Metro'r De-orllewin yn achos Sanclêr.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y cyfnod ymgeisio a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn un byr ac na ellid bod wedi rhagweld hynny – pennwyd dyddiad cau o 5 Mehefin – comisiynwyd Trafnidiaeth Cymru (TC) i wneud rhagor o waith asesu a gwerthuso annibynnol gyda'r nod o sicrhau ein bod, yn achos pob un o'r pedair blaenoriaeth sydd ar y rhestr fer, yn barod i gyflwyno cais. Mae'r Gweinidog wedi gofyn hefyd i'r adroddiad gynnig atebion i'r problemau o ran amserlennu a materion eraill yn ymwneud â gweithredu a nodwyd gan y diwydiant rheilffyrdd hyd yma, a hynny oherwydd y bydd Llywodraeth y DU yn gofyn i'r diwydiant hwnnw fynegi barn am y ceisiadau a gaiff eu cyflwyno iddi.

Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr TC, ag AS yr etholaeth a Chyngor Tref Sanclêr ar 3 Ebrill i drafod cam newydd yr astudiaeth, ac roedd y cyfarfod hwnnw'n un cadarnhaol iawn. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer astudiaeth TC yn cynnwys gofyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid. O ran Sanclêr, dywedwyd wrth gynghorwyr annibynnol TC y dylid cynnwys y Cyngor Sir, Cyngor y Dref a chynrychiolwyr etholedig wrth wneud hynny.

Hoffwn bwysleisio mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn unig yw buddsoddi o dan raglen y Gronfa Gorsafoedd Newydd, a'n bod yn falch iawn o gael cefnogaeth Cyngor Tref Sanclêr i sicrhau cyllid ar gyfer y cynigion y byddwn yn eu cyflwyno.

Yn gywir,

Dewi Rowlands

Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

ETGovernmentBusiness@llyw.cymru
ETGovernmentBusiness@gov.wales



Y Bwyllgor Ddeisebau / Petitions Committee
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

28/05/2020

Annwyl Bwyllgor / Dear Committee,

Petition 1721 'Next Stop St Clears'

Thank you for the opportunity to provide a statement in support of the petition noted above. In total, the petition attracted 1144 supporters (562 online and 582 on paper). It is also worth noting that there are still some paper petitions remaining in the community. Unfortunately it hasn't been possible to collect all copies of the petition during lockdown, the true number of signatures is unknown but higher than the number reported above.

While it is acknowledged that the final decision on this matter will be taken by the UK Government, the community wished to demonstrate its support to the Welsh Government ahead of the NSF3 application deadline. As one of four shortlisted stations, I'm sure you will agree that a demonstration of support, and information regarding likely usage of a new station is crucial at this time. The petition was one part of a wider public engagement exercise. A report summarising the public engagement, carried out between February and March this year can be found on St Clears Town Council website.

<https://www.stclearstowncouncil.co.uk/2020/05/28/next-stop-st-clears-report/>

The report been sent to the Welsh Government, Transport for Wales, and the UK Government. It is hoped that the clear demonstration of support and potential

46 St David's Avenue, Caerfyrddin / Carmarthen, SA31 3DN
07468 456077; clerk@stclearstowncouncil.co.uk

economic, environmental, and social benefits of a station will be conveyed in the NSF3 application to Network Rail.

Your support in this matter, would be greatly appreciated.

Yours sincerely



Emma Smith
Town Clerk

46 St David's Avenue, Caerfyrddin / Carmarthen, SA31 3DN
07468 456077; clerk@stclearstowncouncil.co.uk

Eitem 4.1

P-05-798 Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u cyllido'n annibynnol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan FNF Both Parents Matter Cymru ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Chwefror 2018, ar ôl casglu 138 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb

Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u hariannu yn annibynnol ar Gymorth i Fenywod Cymru a'r holl fudiadau cysylltiedig.

Y diffiniad traws-lywodraethol o drais a cham-drin yn y cartref yw: "Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o achosion o ymddygiad, trais neu gamdriniaeth sy'n rheoli, yn gorfodi, yn bygwth, rhwng pobl 16 oed neu hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb."

Gall Cam-drin yn y Cartref effeithio ar unrhyw un. Mae mwy o ddioddefwyr/goroeswyr gwrywaidd yn chwilio am help, cyngor, cymorth a diogelwch nag erioed o'r blaen. Mae'n bwysig bod dioddefwyr gwrywaidd yn haeddu cymorth a chyllid annibynnol gan grwpiau penodol o ran rhywedd fel Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau cysylltiedig.

Mae dioddefwyr/goroeswyr gwrywaidd yn haeddu cymorth/help sy'n benodol i'w hanghenion, tra'n parhau i gynnal eu hurddas, a rhoi diogelwch iddynt hwy a'u plant sy'n gyfartal ac yn debyg i'r hyn y mae menywod yn ei dderbyn ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r ystadegau Cam-drin yn y Cartref cyfredol ledled Cymru a Lloegr yn nodi y bydd Cam-drin yn y Cartref yn effeithio ar 1 o bob 4 menyw ac 1 o bob 6 dyn yn ystod eu hoes.

Mae Cam-drin/Trais yn y Cartref yn broblem a all effeithio ar unrhyw un, felly oni ddylem fod yn:

"Rhoi pobl a'u plant yn gyntaf."

Nid oes mwy o fwlch o ran argaeledd gwasanaethau a chymorth yn seiliedig ar ryw person yn unig ar draws Cymru a'r DU.

Mae angen i agweddau newid oherwydd ni ddylai neb (a'u plant) barhau heb ddiogelwch a chymorth mewn modd mor gyhoeddus a chywilyddus oherwydd eu rhyw yng Nghymru, yn yr oes sydd ohoni.

Cefnogwch hyn i helpu i gefnogi eraill.

Etholaeth a Rhanbarth y Senedd

- Pen-y-Bont ar Ogwr
- Dwyrain De Cymru

10th March 2020

RE: YML/FW: P-05-798 Correspondence from the Chair of the Petitions Committee

The Safer Wales Dyn project is the only dedicated service that provides the following for Gay, Bisexual, Heterosexual and Transgender men who experience domestic abuse and/or sexual violence in Wales;

- Dedicated Dyn Wales Helpline and Independent Advisor Service
- Awareness raising and training

The Safer Wales Dyn project receives referrals to the project which include the following;

- Police
- Self referrals
- Housing
- Third Sector organisations
- Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence sector

All men accessing the Safer Wales Dyn project are assessed according to; risk of harm from domestic abuse and sexual violence levels, emotional support, wellbeing, signposting to agencies and advocating for men who experience domestic abuse and sexual violence.

The Safer Wales Dyn project only works with men and does not support women who experience domestic abuse and sexual violence. Safer Wales does not currently deliver a dedicated Wales helpline and Independent Advisor Service to women.

In line with the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act, all people accessing Safer Wales Services who disclose domestic and/or sexual violence will be supported and appropriately referred to relevant multi-agency safeguarding and support services, such as MARAC (Multi-Agency Risk Assessment Conference) or SARC (Sexual Assault Referral Centre) following agreed assessment, such as Safe Lives DASH/RIC (Domestic Abuse, Stalking and Harassment Risk Indicator Checklist).

Simon Borja
Director of Project Development
Safer Wales



**61 Cowbridge Rd East
CARDIFF
CF11 9AE
paul@fnf-bpm.org.uk**

P-05-798 – Male domestic violence victim support services to be independently run & funded

RESPONSE FROM FNF BOTH PARENTS MATTER CYMRU TO SAFER WALES SUBMISSION

We thank the Committee for their interest in these important and difficult issues for male victims of domestic violence and abuse.

We believe that male victims of domestic violence and abuse are being failed by Welsh Government, Local Authorities and service deliverers who adopt a perspective that marginalises or denies the experience of men and funds ‘support’ that is not grounded in the experience of men. Welsh Women’s Aid rightly campaign for services that are ‘by and for’ women – grounded in their experience and responsive to their needs as women.¹ We understand and support the need for women only services – primarily because evidence shows that this is what women experiencing abuse want. However, in relation to male victims the National Quality Service Standards for specialist Domestic Abuse Services (funded by Welsh Government) states that:

1.9. Services for male service users are tailored to their needs and are delivered safely, using a recognised assessment tool to review risk and needs, which is aligned with the Safer Wales Dyn Project assessment toolkit or ‘Respect Toolkit for work with male victims of domestic violence’ and associated standards for supporting male victims.

This is a different approach to that stipulated for female service users.

We note the response from Safer Wales – a member organisation of Welsh Women’s Aid²
The assessment process used by Safer Wales for men is fundamentally different to that used

¹ https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/Welsh-Womens-Aid_Service-Standards-Final.pdf p7

² <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Annual-Membership-Report-2018-19-FINAL.pdf> p2 footnote



by themselves and other member organisations of Welsh Women's Aid with female service users presenting as victims of VAWDASV.

The Dyn Project assessment tool seeks to determine the extent to which an individual is a 'genuine' victim of abuse on a continuum from pure victim to pure abuser with bi-directional violence at the mid point. It does this by asking individuals accessing their service a series of around 40 questions about their experience. These questions include a set asking the caller to reflect upon the answers that their 'partner' or alleged abuser might give. We know of no assessment tool used with female victims that uses a similar approach.

Safer Wales do not explain to callers that their assessment tool is used to determine whether or not they are 'genuine' victims of domestic abuse. We believe therefore that any consent granted by callers to process their information is not a valid consent. It is our view that the Safer Wales Dyn Project assessment tool discriminates against men seeking help and support. The Safer Wales Dyn project is funded by Welsh Government to provide a service to male victims of domestic violence and abuse.

There is no external assessment or validation of the use of the assessment tool. This was confirmed by James Rowlands, who developed the tool, in an email recorded by Dr Sarah Wallace in her PhD thesis³

Mrs Anne O'Regan – Vice Chair of our charity raised the discriminatory practice of the Safer Wales Dyn Project assessment tool with the Equality and Human Rights Commission. Their initial response was:

